# PECYN GWIRFODDOLWR

## Goruchwyliwr Oriel - Canolfan Grefft Rhuthun

**Y Tîm:**

Cydnabyddir Canolfan Grefft Rhuthun fel prif ganolfan Cymru ar gyfer celfyddydau cymhwysol, yn cyflwyno arddangosiadau o'r ansawdd uchaf o Gymru, y DU ac o amgylch y byd yn ehangach. Mae Canolfan Grefft Rhuthun yn cynnwys tair oriel, stiwdios artistiaid ac oriel manwerthu, gweithdy addysgol a mannau gwaith preswyl. Mae arddangosiadau'r ganolfan yn gynyrchiadau mewnol cyfoes, ac yn rhai sy'n teithio i leoliadau eraill yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol. Mae'r arddangosfeydd yn cael eu cefnogi gan raglen gymunedol addysgol a helaeth, wedi'i dargedu tuag at godi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r Celfyddydau Cymhwysol. Ychwanegir at hyn ymhellach gan oriel manwerthu safonol lle mae gwaith dethol gan ddylunwyr ac artistiaid cymhwysol lleol a chenedlaethol ar gael i'w gwerthu i'r cyhoedd.

**Tasgau Allweddol:**

- Croesawu ymwelwyr a'r cyhoedd i'r ganolfan, gan ddarparu profiad o'r radd flaenaf i gwsmeriaid
- Cynorthwyo gweithrediadau blaen tŷ i redeg yn esmwyth ac i'r safonau proffesiynol arferol.
- Bod yn bwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau cyhoeddus i'r oriel, gan gynnig cefnogaeth a gwybodaeth i ymwelwyr ar yr arddangosfa, oriel a chynnig diwylliannol ehangach yng Nghanolfan Grefft Rhuthun.
- Gallu siarad gyda dealltwriaeth a hyder am y gwaith celf ac arddangosiadau sydd yn cael eu dangos yn y ganolfan, a dangos diddordeb gwirioneddol yn y gelfyddyd
- Ymgysylltu gydag ymwelwyr, gan sicrhau bod ganddynt yr holl adnoddau neu wybodaeth sy'n egluro'r arddangosfa wrth gadw llygaid dros y gwaith celf a'r deunyddiau arddangosfa.
- Cynorthwyo i gadw cofnod o adborth ymwelwyr pan fod angen.
- Creu amgylchedd croesawgar ar gyfer ymwelwyr gan sicrhau bod yr oriel bob amser yn daclus a bod yr arddangosfeydd yn cael eu dangos yn ddiogel.
- Bod yn weledol ac ymgysylltu gyda'r holl ymwelwyr a staff, er mwyn sicrhau y dilynir canllawiau a phrotocolau'r oriel.
- Ymgyfarwyddo â gweithdrefnau gwacau a gweithio gyda'r staff ar y safle i weithredu hyn mewn digwyddiad o argyfwng.
- Adrodd am unrhyw broblemau mewn perthynas â diogelwch neu lanweithdra.

***Mae'r dogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.***

PECYN
GWIRFODDOLWR

# Goruchwyliwr Oriel - Canolfan Grefft Rhuthun

**Gofynion:**

Nid oes angen profiad blaenorol arnoch; rydym yn chwilio am rywun sy'n gyfeillgar, hawdd mynd atynt ac sydd â diddordeb ac angerdd am y celfyddydau. Bydd yr holl wirfoddolwyr newydd yn derbyn hyfforddiant ac yn cael eu cefnogi yn eu rôl gan staff a staff rheoli Canolfan Grefft Rhuthun. Mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg o fantais, ond nid yw'n hanfodol ar gyfer y rôl hon.

Os oes gennych sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid gwych, parodrwydd i ymgysylltu a helpu'r cyhoedd, sgiliau cyfathrebu hyderus ac yn mwynhau gweithio fel rhan o dîm, cysylltwch â ni. Oherwydd natur y swydd mae'n rhaid i'n holl wirfoddolwyr gytuno i gael gwiriad DBS.

I ddiolch i chi am eich cefnogaeth, rydym yn cynnig mynediad am ddim i'n gwirfoddolwyr ar gyrsiau / gweithdai addysgol dethol sy'n cael eu rhedeg trwy'r Ganolfan Grefftau, a chopi am ddim o gatalogau arddangosfa sy'n gysylltiedig â'r arddangosfa rydych chi'n ymwneud â hi yn ei goruchwylio. Rhai canllawiau datblygu proffesiynol / celfyddydol, ynghyd â gostyngiadau staff ar fwyd a diod tra ar ac oddi ar sifft (yn ddibynnol ar gynigion cyfredol).

**Oriau**

Mae Canolfan Grefft Rhuthun ar agor o 10am - 5.30pm ddydd Mawrth i ddydd Sul. Byddem yn gweithio gyda'r gwirfoddolwyr i ddatblygu rota misol a fyddai'n ystyried unrhyw ymrwymiadau neu gyfrifoldebau sydd ganddynt eisoes. Yn ddelfrydol, hoffem i'n gwirfoddolwyr ymrwymo o leiaf dau ddiwrnod yr wythnos.

**Beth sy'n digwydd nesaf.**

Os oes gennych ddiddordeb yn y cyfle hwn, ewch i wefan DLL https://denbighshireleisure.co.uk/cy/gwirfoddoli/ a llenwch y ffurflen wirfoddoli fer. Ar ôl i chi wneud hynny byddwn yn eich gwahodd i ddod am sgwrs am y rôl a hyfforddiant

***Mae'r dogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.***